

Safonau'r Gymraeg

Adroddiad Blynyddol 2019/20



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.

1. Cyflwyniad

Mae Safonau'r Gymraeg yn datgan ei bod yn ofynnol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (CBSP) lunio a chyhoeddi adroddiad blynyddol erbyn 30 Mehefin bob blwyddyn.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn ar gyfer 2019/20 yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020 ac yn amlinellu sut mae'r cyngor yn parhau i gydymffurfio yn ystod y cyfnod hwn yn ogystal â thynnu sylw at unrhyw ddatblygiadau/meysydd cynnydd newydd.

2. Sut mae'r Cyngor yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg

Nid yw'r cyngor bellach yn cael ei herio ar unrhyw un o'r safonau a gellir gweld unrhyw newidiadau i ddyddiadau cydymffurfio, estyniadau neu amgylchiadau ar gyfer y safonau a gafodd eu herio'n flaenorol yn hysbysiad cydymffurfio diwygiedig y cyngor.

2.1 Cydymffurfiaeth Gyffredinol

- Mae'r cyngor yn parhau i fod â swyddog arweiniol sy'n gyfrifol am y Gymraeg
- Mae cyflogeion yn parhau i gael diweddariadau a gwybodaeth reolaidd ynghylch y Gymraeg o ran cydymffurfiaeth, mynediad at adnoddau fel hyfforddiant a chodi proffil yr iaith a'r diwylliant
- Mae ein modiwl e-ddysgu cynefino corfforaethol yn cynnwys adran benodol ar y Gymraeg a'i phwysigrwydd, sy'n cyfeirio cyflogeion newydd at adnoddau gwybodaeth eraill
- Mae ein modiwl e-ddysgu cynefino ar gyfer rheolwyr yn cynnwys adran benodol ar y Gymraeg a'i phwysigrwydd, sy'n cyfeirio rheolwyr newydd at adnoddau gwybodaeth eraill

- Fel rhan o raglen gynefino'r rheolwyr, mae'r swyddog sy'n gyfrifol am y Gymraeg yn gwneud cyflwyniad ar Safonau'r Gymraeg a beth maent yn ei olygu yn ymarferol i reolwyr, gan sicrhau eu dealltwriaeth o rwymedigaethau'r cyngor a'u cyfrifoldebau rheoli
- Mae'r Gymraeg yn parhau i fod ar gofrestr risg y cyngor er mwyn helpu i fonitro cydymffurfiaeth
- Gall cyflogeion gysylltu â Hyrwyddwyr y Gymraeg o hyd am gymorth a chynghor
- Mae tudalennau'r fewnwyd i staff a'r mewnwylwch e-bost Cymraeg penodol (WLS@bridgend.gov.uk) yn bodoli o hyd. Erbyn hyn mae llawer o dudalennau'r mewnwyd wedi cael eu diweddarau, ond mae gwaith i'w gwblhau eto.
- Mae'r cyngor yn parhau i ddarparu amrywiaeth o hyfforddiant ac adnoddau Cymraeg i staff
- Erbyn hyn mae'r cyngor yn cefnogi staff i fynychu cyrsiau cymunedol sy'n cynnig hyfforddiant yn y Gymraeg
- Mae'r cyflogeion yn gallu defnyddio fframwaith y GCC i gael cymorth cyfieithu
- Mae gennym [ddogfen gydymffurfio](#) o hyd sy'n manylu ar sut byddwn yn cydymffurfio â safonau darparu gwasanaethau, gweithredol, cadw cofnodion, hyrwyddo a llunio polisiau perthnasol. Mae ein [gweithdrefn gwyno](#) hefyd ar gael ar ein gwefan yn ogystal ag [adroddiadau blynyddol](#) blaenorol
- Rydym yn parhau i roi gwybodaeth i Gomisiynydd y Gymraeg yn ôl y gofyn.

2.2 Safonau darparu gwasanaethau

Yn 19/20 rydym wedi parhau i wneud y canlynol:

- Ymateb i ohebiaeth a dderbynnir yn y Gymraeg lle mae angen ateb
- Cyflwyno fersiynau dwyieithog neu Gymraeg a Saesneg ar wahân o ohebiaeth, heb drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
- Darparu cyfarchiad dwyieithog dros y ffôn ac, os yw hynny'n berthnasol, parhau i sgwrsio yn y Gymraeg nes i'r sgwrs ddod i ben, neu nes mae'r unigolyn yn cael ei drosglwyddo i aelod o staff sy'n siarad Cymraeg (os oes un ar gael), neu i aelod o staff Saesneg ei iaith os nad oes siaradwr Cymraeg ar gael a bod y cwsmer yn fodlon gyda hyn
- Gweithredu un prif rif ffôn (01656 643643) ar gyfer y rhai sy'n dymuno siarad â rhywun yn y Gymraeg neu yn Saesneg. Os nad oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael, rhoddir gwybod i'r sawl sy'n ffonio, yn y Gymraeg, pryd y bydd gwasanaeth o'r fath ar gael. Gall unigolion sy'n dymuno siarad â rhywun yn y Gymraeg adael neges yn y Gymraeg hefyd
- Nodi ar ddeunyddiau sy'n hysbysebu rhif ffôn CBSP bod croeso i alwadau yn y Gymraeg neu yn Saesneg. Rydym yn parhau i drin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg ar ddeunyddiau hysbysebu

- Gofyn i bobl rydym wedi'u gwahodd i gyfarfod a ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod a gwneud yr holl drefniadau angenrheidiol i hwyluso hyn. Yn ôl y pecyn cymorth cyfarfodydd a ddatblygwyd, rhoddwyd cyfle i 559 o bobl a ddaeth i gyfarfodydd yn ystod 19/20 gymryd rhan yn y cyfarfod trwy gyfrwng y Gymraeg
- Anfon gwahoddiadau dwyieithog i gyfarfodydd/digwyddiadau cyhoeddus CBSP (os yw hynny'n berthnasol) a chyfarfodydd/digwyddiadau a gyllidir gan CBSP (50% neu fwy o gyllid). Gofynnir i unrhyw un sy'n gwneud cyflwyniad mewn cyfarfod a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg, yn ogystal â hysbysu'r cyfranogwyr bod croeso iddynt ddefnyddio'r Gymraeg (os rhoddir gwybod i ni ymlaen llaw) yn y cyfarfod. Mae'r deunyddiau a ddefnyddir i hysbysebu'r cyfarfodydd/digwyddiadau hyn, neu'r deunyddiau sy'n cael eu harddangos mewn cyfarfodydd/digwyddiadau, yn ddwyieithog
- Asesu'r galw am gyrsiau addysg trwy gyfrwng y Gymraeg sy'n agored i'r cyhoedd ac, os oes galw, cynnig y cwrs yn y Gymraeg
- Llunio deunyddiau marchnata, hysbysebu a chyhoedduswyd i'r cyhoedd (gan gynnwys datganiadau i'r wasg) yn ddwyieithog. Mae hyn hefyd yn berthnasol i ddogfennau corfforaethol i'r cyhoedd fel polisiau a rheolau yn ogystal â dogfennau ymgynghori. Mae'r dogfennau hyn yn ceisio trin yr iaith Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg. Nodir hyn mewn fersiynau Saesneg ar wahân o ddogfennau sydd ar gael yn y Gymraeg (os yw hyn yn ofynnol)
- Cynhyrchu ffurflenni sydd ar gael i'r cyhoedd yn ddwyieithog neu mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Os oes fersiynau ar wahân ar gael, byddwn yn nodi ar y fersiwn Saesneg o'r ffurflen bod fersiwn Gymraeg ar gael
- Ymateb yn y Gymraeg i negeseuon Cymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol lle mae angen ateb
- Newid arwyddion strydoedd, lleoedd a chyfeiriadau (gan gynnwys arwyddion dros dro os yw hynny'n berthnasol) yn dilyn difrod neu draul arferol, am arwyddion dwyieithog gyda'r testun Cymraeg yn ymddangos yn gyntaf
- Cynhyrchu hysbysiadau swyddogol yn ddwyieithog gan roi'r testun Cymraeg yn gyntaf
- Sicrhau bod staff derbynfa sy'n siarad Cymraeg yn gwisgo laniard i ddangos i gwsmeriaid eu bod yn gallu darparu gwasanaeth Cymraeg
- Gwneud cyhoeddiadau sain dwyieithog gyda'r cyhoeddiad Cymraeg yn gyntaf
- Sicrhau bod ceisiadau grant (a'r broses) a thendrau (a chyfweliadau) ar gael yn y Gymraeg
- Hyrwyddo'r gwasanaethau Cymraeg rydym yn eu cynnig yn ôl yr angen
- Rydym yn parhau i gynhyrchu agenda a chofnodion pob cyfarfod o'r Cabinet a'r pwyllgorau yn ddwyieithog (safon 41). Mae'r rhain ar gael ar ein gwefan
- Yn ystod y cyfnod hwn rydym wedi parhau i ddatblygu cynnwys a nodweddion dwyieithog ar y wefan yn ôl yr angen (safon 52 a 56)
- Parhau i bostio'n ddwyieithog ar y cyfryngau cymdeithasol ac ymateb i ymholiadau Cymraeg a dderbynnir yn y Gymraeg, lle mae angen ymateb. Nid

ydym yn postio'n ddwyieithog mewn amgylchiadau lle mae angen cyfathrebu ar frys

Datblygiadau newydd ar gyfer 19/20:

- Rydym wedi gweithio ar swyddogaethau'r gronfa ddata iaith dinasyddion ganolog ac wedi bod yn gweithio i sicrhau bod tanysgrifwyr Fy Nghyfrif yn cael eu cofnodi ar y system ganolog gyda llaw. Mae'r system hon yn ein helpu i gofnodi a gweithredu ar ddewis iaith pobl
- Rydym wedi rhoi cyfarwyddyd i staff i'w helpu i gydymffurfio â safon 1, wrth ddelio â gohebiaeth a dderbynnir yn y Gymraeg
- Ac eithrio peiriannau parcio (estyniad tan fis Awst 2021) rydym wedi sicrhau bod yr holl beiriannau hunanwasanaeth yn gwbl weithredol yn y Gymraeg
- Rydym wedi newid y system IVR ar y brif linell ffôn fel bod pawb sy'n galw nawr yn dewis eu hiaith yn hytrach na mynd i'r Saesneg yn ddiodyn

2.3 Safonau llunio polisïau

Yn 19/20 rydym wedi parhau i wneud y canlynol:

- Defnyddio ein proses Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG) i sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r Gymraeg wrth adolygu neu lunio polisïau
- Gofyn i'r rhai sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau ymgynghori, ymgysylltu ac ymchwilio am eu barn ynghylch a all penderfyniad polisi (os yw hynny'n berthnasol) effeithio ar y defnydd o'r Gymraeg
- Ystyried effaith dyfarnu grantiau ar y defnydd o'r Gymraeg

Datblygiadau newydd ar gyfer 19/20:

- Rydym wedi parhau i ddatblygu ein proses AEG yn fewnol, gan sicrhau ein bod yn gallu monitro a chofnodi yn fanwl gywir yr AEGau sy'n cael eu cwblhau'n flynyddol ac asesu'r effaith ar y Gymraeg
- O ganlyniad i'r hyn a ddysgwyd o'r seminarau a gynhaliwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg yn ystod 2018, rydym wedi sicrhau bod geiriad perthnasol mewn perthynas ag effeithiau niweidiol a chadarnhaol ar yr iaith yn bodoli'n gyson ym mhob ymgynghoriad llunio polisi a sicrhau bod y canlyniadau'n cofnodi'r effaith niweidiol/gadarnhaol yn yr ymgynghoriad.

2.4 Safonau Gweithredu

Yn 19/20 rydym wedi parhau i wneud y canlynol:

- Galluogi cyflogeion i ddarllen y weithdrefn a'r broses gwyno yn y Gymraeg, gan gynnwys dogfennaeth berthnasol
- Galluogi cyflogeion i ddarllen y weithdrefn a'r broses ddisgyblu yn y Gymraeg, gan gynnwys dogfennaeth berthnasol

- Darparu meddalwedd gyfrifiadurol i staff wirio sillafu a gramadeg
- Sicrhau bod adrannau/rhyngwyneb perthnasol ar ein mewnrwyd ar gael yn y Gymraeg a neilltuo adran Gymraeg ar y fewnrwyd fel adnodd i staff
- Asesu sgiliau Cymraeg ein cyflogeion yn barhaus
- Sicrhau bod hyfforddiant 'cwrdd a chyfarch' a chyrsgiau Cwrs Mynediad ar gael i staff
- Sicrhau bod pecynnau e-ddysgu ar gael i staff am ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a'r diwylliant Cymraeg, yn ogystal â safonau'r Gymraeg
- Galluogi staff i ddefnyddio llofnodion e-bost a negeseuon 'allan o'r swyddfa' dwyieithog. Rydym yn annog siaradwyr a dysgwyr Cymraeg i nodi eu sgiliau iaith ar eu llofnodion e-bost (trwy ddefnyddio'r logos cydnabyddedig perthnasol)
- Asesu'r sgiliau Cymraeg ar gyfer swyddi newydd a swyddi gwag. Ceir dadansoddiad o'r wybodaeth hon yn adran pump
- Sicrhau bod y broses ymgeisio am swyddi a'r ddogfennaeth gysylltiedig ar gael yn y Gymraeg a bod y broses Gymraeg yn cael ei thrin yr un mor ffafriol â'r un Saesneg. Mae hyn hefyd yn cynnwys contractau cyflogaeth
- Gwirio dewis iaith cyflogeion er mwyn darparu gohebiaeth am eu cyflogaeth, a ffurflenni amrywiol sy'n ymwneud â chyflogaeth, yn y Gymraeg yn ôl yr angen
- Sicrhau bod polisiâu Adnoddau Dynol perthnasol ar gael yn y Gymraeg, a darparu hyfforddiant (e-ddysgu) yn y Gymraeg wrth recriwtio a chyfweld, rheoli perfformiad, cynefino a defnyddio'r Gymraeg yn effeithiol mewn cyfarfodydd, cyfweiliadau a gweithdrefnau cwyno a disgyblu (safonau 128 a 129)
- Gosod arwyddion dwyieithog yn ein prif dderbynfa (Swyddfeydd Dinesig), gan roi'r Gymraeg yn gyntaf
- Adrodd ar y [strategaeth pum mlynedd](#) yn flynyddol yn un o gyfarfodydd Pwyllgor Cydraddoldeb ein Cabinet.

Datblygiadau newydd ar gyfer 19/20:

- Rydym wedi adolygu ein harwyddion dwyieithog yn ein prif dderbynfa (Swyddfeydd Dinesig), yn unol â gweithdai arfer gorau Comisiynydd y Gymraeg
- Rydym wedi adolygu, diweddar a chyhoeddi polisi Cymraeg yn y Gweithle diwygiedig i'r staff
- Fel rhan o'n rhaglen trawsnewid digidol, rydym wedi datblygu Sgyrsfot dwyieithog er mwyn i drigolion y sir gyfathrebu â ni yn y Gymraeg ac yn Saesneg ar ein gwefan. Mae'r Sgyrsfot wedi cael ei raglennu gydag ymatebion awtomatig i gwestiynau sydd wedi cael eu gofyn gan y trigolion ac mae hefyd yn dysgu i ateb mwy o gwestiynau fel mae'n cael ei ddefnyddio mwy, dros amser. Cyfeirir y trigolion at y tudalennau perthnasol ar y wefan neu gall aelod o'r tîm gwasanaethau cwsmeriaid ymyrryd a helpu gydag ymholiadau yn yr iaith sydd wedi'i dewis

- Er mwyn ‘canfod y capasiti mewn meysydd gwasanaeth i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg’ ac ‘Asesu gofynion sgiliau iaith swyddi yn y meysydd gwasanaeth’ (gan ganolbwyntio i ddechrau ar y rhai sy’n cael cyswllt uniongyrchol â chwsmeriaid ee dderbynfeydd), rydym wedi defnyddio’r Adnodd Asesiad Ieithyddol i werthuso anghenion ieithyddol y swyddi ym mhrif dderbynfeydd y cyngor. Mae hyn wedi cael ei gwblhau yn y Swyddfeydd Dinesig, Canolfan Adnoddau Pen-y-bont ar Ogwr a Threm-y-Môr. O ganlyniad i hyn, mae gan y meysydd gwasanaeth hyn gynllun hyfforddi penodol ar gyfer Hyfforddiant Sgiliau Cymraeg, i sicrhau bod ganddynt gapasiti i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg
- Rydym wedi gwneud cynnydd gyda datblygu lleoliadau gofal plant Cyfrwng Cymraeg ar draws y Fwrdeistref Sirol. Mae grŵp llywio o weithwyr gofal plant proffesiynol a chydweithwyr yn y trydydd sector wedi cael ei sefydlu ac mae’n cyfarfod yn rheolaidd i sicrhau darpariaeth effeithiol yn ystod y tair blynedd nesaf
- Rydym wedi llunio llyfryn Addysg Cyfrwng Cymraeg i hyrwyddo Addysg Cyfrwng Cymraeg ymhlith rhieni ac rydym wedi gweithio gydag ymwelwyr iechyd, bydwagedd a gweithwyr proffesiynol eraill i ddsbarthu’r llyfrynau i’r rhieni mewn cam cynnar ym mywyd eu plentyn

2.5 Safonau Cadw Cofnodion

Yn 19/20 rydym wedi parhau i wneud y canlynol:

- Cofnodi unrhyw gwynion a dderbyniwyd am ein cydymffurfiaeth fel rhan o’n system gwynion gorfforaethol
- Monitro a chofnodi nifer y cyflogeion sy’n mynd ar gyrsiau hyfforddi trwy gyfrwng y Gymraeg a’r Saesneg - gweler adran pedwar am ragor o fanylion
- Cofnodi sgiliau Cymraeg cyflogeion ac asesiadau o swyddi newydd a swyddi gwag - gweler adran pump am ragor o fanylion
- Cofnodi nifer y cysylltiadau Cymraeg sy’n digwydd ar nifer o sianelau (dros y ffôn, wyneb yn wyneb ac yn ddigidol) yng nghanolfan gyswllt y gwasanaethau cwsmeriaid

3. Cwynion

- Derbyniodd Comisiynydd y Gymraeg gŵyn gan aelod o’r cyhoedd ar 30 Mawrth 2019. Roedd y gŵyn yn honni: Nid yw’r dudalen ar gyfer newid manylion debyd uniongyrchol o dan y tab ‘Fy Nghyfrif’ ar wefan y Cyngor yn gweithio’n iawn trwy gyfrwng y Gymraeg. Hefyd honiad na dderbyniodd y sawl a gyflwynodd y gŵyn ymateb llawn i ohebiaeth Gymraeg a anfonodd i’r cyfeiriad e-bost talktous@bridgend.gov.uk. Derbyniodd neges yn dweud: “Diolch i chi am eich e bost, rydym wedi ei anfon ymlaen i’r adran berthnasol ar gyfer eu sylw.”

- Derbyniodd Comisiynydd y Gymraeg gŵyn gan aelod o'r cyhoedd ar 4 Gorffennaf 2019 ynghylch honiad bod gohebiaeth Saesneg wedi'i derbyn gan y Cyngor drwy Ysgol Gynradd Bro Ogwr. Hefyd nodwyd nad oedd opsiwn i ddewis iaith ar gyfer y cwrs oedd yn cael ei drafod yn y llythyr
- Derbyniodd Comisiynydd y Gymraeg gŵyn gan aelod o'r cyhoedd ar 16 Hydref 2019 ynghylch e-bost awtomatig a dderbyniwyd gan y Cyngor yn cydnabod taliad treth gyngor. Anfonwyd yr e-bost o'r cyfeiriad e-bost AUTOMAILER@E-PAYCAPITA.COM' ac roedd yr un templed e-bost yn destun cwyn CSG616. Roedd y sawl a wnaeth y gŵyn yn honni bod y fersiwn Gymraeg yn cynnwys camgymeriadau.
- Derbyniodd Comisiynydd y Gymraeg gŵyn gan aelod o'r cyhoedd ar 14 Ionawr 2020 ynghylch y testun Cymraeg ar waelod cerdyn pleidleisio a anfonwyd at yr etholwyr ar gyfer Etholiad Cyffredinol 12/12/19. Roedd y sawl a wnaeth y gŵyn o'r farn nad oedd "Os rhoi dychwelyd i'r" yn gyfieithiad cywir o "If undelivered return to". Hefyd dywedodd y Comisiynydd bod y cyfeiriad ar gyfer dychwelyd y cerdyn yn Saesneg yn unig yn ôl pob tebyg (Civic Offices, Angel Street, Bridgend, CF31 4WB). Mae'r cyngor wedi darparu ymateb i'r Comisiynydd gan ddweud nad y cyngor yw'r corff sy'n gyfrifol am gynnal y Gofrestr o Etholwyr nac anfon cardiau pleidleisio i bleidleiswyr cofrestredig. Cyfrifoldebau'r Swyddog Cofrestru a'r Swyddog Etholiadol yw'r rhain ac mae'r swyddi hyn yn annibynnol ar y cyngor.
- Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion o dan y safonau llunio polisi.

4. Sgiliau a hyfforddiant cyflogaion

Sgiliau iaith Gymraeg ar 31 Mawrth 2020:

Disgrifiad	Ysgolion				Pob gwasanaeth arall			
	Ben	Gwr	Cyfans	%	Ben	Gwr	Cyfans	%
Cyfanswm cyfrif pennau	2,494	517	3,011		2,352	713	3,065	
Siarad Cymraeg								
'Ychydig'	345	64	409	13.	341	105	446	14.5
'Eithaf da'	73	14	87	2.8	40	7	47	1.53
'Rhugl'	135	18	153	5.0	98	24	122	3.98
'Na'	351	71	422	14.	1,16	373	1,542	50.3
Dim ymateb	1,59	350	1,940	64.	704	204	908	29.6
Darllen Cymraeg								
'Ychydig'	354	62	416	13.	368	115	483	15.7
'Eithaf da'	82	15	97	3.2	54	16	70	2.28
'Rhugl'	135	19	154	5.1	97	22	119	3.88
'Na'	333	71	404	13.	1,12	355	1,484	48.4

Dim ymateb	1,59	350	1,940	64.	704	205	909	29.6
Ysgrifennu								
'Ychydig'	318	54	372	12.	295	72	367	11.9
'Eithaf da'	74	16	90	2.9	48	13	61	1.99
'Rhugl'	125	17	142	4.7	84	19	103	3.36
'Na'	386	80	466	15.	1,22	402	1,623	52.9
Dim ymateb	1,59	350	1,941	64.	704	207	911	29.7

Sylwer:

- Mae'r categori 'Ysgolion' yn cynnwys cyflogeion a gyflogir yn uniongyrchol gan gyrrff llywodraethu. Mae staff cynhwysiant wedi'u cynnwys yn y categori 'Pob gwasanaeth arall'.
- Mae'r categori 'Dim ymateb' yn cynnwys cyflogeion nad ydynt wedi rhoi manylion am eu sgiliau Cymraeg.
- Mae'r lefelau sgiliau a nodir yn seiliedig ar hunanasesiad unigol.
- Mae gan 226 o gyflogeion swydd mewn ysgol a swydd yn y categori 'Pob gwasanaeth arall' ac maent yn cael eu cyfrif unwaith ym mhob categori.

Nifer y cyflogeion a aeth ar gyrsiau Cymraeg rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020:

- Mae 20 o gyflogeion wedi mynychu hyfforddiant 'Cwrs Mynediad' yn 2019/20, gan eu galluogi i ddatblygu eu sgiliau iaith ymhellach. Roedd hyn yn cynnwys y rhai'n ymgymryd â blwyddyn 1 a blwyddyn 2, a phob dosbarth yn cael ei gynnal am ddwy awr yr wythnos dros gyfnod o 30 wythnos.
- Mae 6 chyflogai wedi cael cymorth i fynychu cyrsiau Cymraeg yn y gymuned. Mae'r cyrsiau hyn yn cynnwys Sylfaen, Sylfaen Rhan 1 a Sylfaen Rhan 2.
- Hefyd darparwyd hyfforddiant Cymraeg ar gyfer Busnes i 8 unigolyn dros 10 wythnos.
- Ni chafwyd unrhyw geisiadau am ddarparu deunyddiau hyfforddiant wyneb yn wyneb yn y Gymraeg yn ystod y flwyddyn.
- Cwblhawyd 71 o fodiwlau e-ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Cwblhawyd 161 o fodiwlau e-ddysgu ar gyfer e-Ddysgu Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ac e-Ddysgu Safonau'r Gymraeg.
- Cwblhaodd 595 o gyflogeion newydd y modiwl e-ddysgu cynefino corfforaethol a chwblhaodd 92 o gyflogeion newydd y modiwl hwn trwy gyfrwng llyfr gwaith. Cyfanswm wedi cwblhau - 687. Mae'r cynefino corfforaethol yn cynnwys adran ar gyflwyniad i'r iaith Gymraeg, Safonau'r Gymraeg a dolenni at Fodiwlau E-Ddysgu'r Gymraeg a'r Cyfleoedd Hyfforddi Cymraeg.
- Cwblhaodd 22 o reolwyr newydd y modiwl e-ddysgu cynefino i reolwyr. Mae'r cynefino i reolwyr yn cynnwys cyflwyniad i'r iaith Gymraeg, Safonau'r

Gymraeg a dolenni at Fodiwl E-Ddysgu Safonau'r Gymraeg a'r Modiwl E-Ddysgu Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg.

5. Recriwtio a dethol

Nifer y swyddi newydd neu swyddi gwag a hysbysebwyd yn ystod 2019/20 lle'r oedd sgiliau Cymraeg yn:

Hanfodol: 15	Dymunol: 588
--------------	--------------

6. Gwasanaethau derbynfya: canolfannau cyswllt a chanolfannau cyswllt ffôn

Y galw am wasanaethau Cymraeg yn y Ganolfan Cyswllt Cwsmeriaid rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020:

Rhyngweithio wyneb yn wyneb yn Gymraeg	5
Cyfanswm ymweliadau	16,190
Ceisiadau am y Gymraeg fel % o gyfanswm y rhyngweithio a gafwyd	0.03%

Y galw am wasanaethau Cymraeg yn y Ganolfan Cyswllt Ffôn rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020

Nifer y galwadau yn ystod oriau gwaith arferol (Cymraeg a Saesneg)	117,687
Nifer y galwadau a dderbyniwyd y tu allan i'r oriau gwaith arferol (Cymraeg a Saesneg)	9,004
Cyfanswm y galwadau a dderbyniwyd (Cymraeg a Saesneg)	126,691
Nifer y galwadau yn y Gymraeg	67
Ceisiadau am y Gymraeg fel % o gyfanswm y galwadau	0.06%

Mae ceisiadau am gyswllt wyneb yn wyneb wedi gostwng yn ddramatig y llynedd o 30,989 i 16,190. Wedi dweud hynny, derbyniwyd 5 cais Cymraeg wyneb yn wyneb o gymharu â 4 yn ystod y flwyddyn flaenorol. Er bod y nifer yn eithaf cyson, mae cynnydd yng nghanran y cyfathrebu yn y Gymraeg, oherwydd y gostyngiad cyffredinol mewn rhyngweithio wyneb yn wyneb.

Mae ceisiadau telefoni wedi gostwng yn sylweddol o 161,483 i 126,691. Mae hyn yn ganlyniad i rai mentrau, fel creu mwy o swyddogaethau gyda'n platfformau ar-lein a gweithio ar newid ein system telefoni, i dderbyn y galwadau sydd wedi'u bwriadu ar gyfer ein gwasanaeth yn unig, a cheisio cael gwared ar nifer y galwadau a dderbynnir i'r switsfwrdd.

7. Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEGau)

Cynhaliwyd wyth Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb llawn i ystyried effaith polisi/strategaeth ar gyfle pobl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn ffordd gadarnhaol neu negyddol ac i drin y ddwy iaith yn gyfartal. Ni nodwyd unrhyw effaith ac, o ganlyniad, ni wnaed unrhyw ddiwygiadau i'r polisïau/strategaethau arfaethedig a aseswyd.

8. Hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymraeg

Cafodd y digwyddiadau a'r gweithgareddau canlynol eu hyrwyddo gan y cyngor rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020:

- Diwrnod Santes Dwynwen;
- Gwasanaeth talu gyda ffôn newydd yn y Gymraeg;
- Gwledd Fwyd Pen-y-bont ar Ogwr – bwyd ac adloniant Cymraeg lleol;
- Agorwyd ysgol Gymraeg newydd sbon @calonycymoedd yn swyddogol;
- Darpariaeth Gymraeg Calon Y Cymoedd ar gyfer plant ag awtistiaeth;
- Cynllun Chwarae Cymraeg (Menter Bro Ogwr);
- Gwersyll Chwaraeon Cymraeg gydag @Urdd;
- Sesiwn blasu am ddim! Pêl droedwyr bach yr Urdd, 3 i 6 oed;
- Eisteddfod;
- Diwrnod Shwmae Sumae;
- Llyfryn Addysg Cyfrwng Cymraeg;
- Diwrnod Hawliau'r Gymraeg;
- Dathlu 70 mlynedd o Addysg Cyfrwng #Cymraeg yng Nghwm Llynfi;
- Dydd Gŵyl Dewi;
- Dydd Gŵyl Dewi Fforwm Busnes Pen-y-bont ar Ogwr;
- Digwyddiad cyngori am Addysg Cyfrwng Cymraeg;
- Deunyddiau Cymraeg ar-lein i blant;
- Gwaith cadwraeth Castell Coety – gem yn hanes Cymru;
- Ffair rocabili Cymru.

Bydd manylion am y gweithgareddau hyrwyddo hyn yn cael eu cofnodi fel rhan o'n proses adrodd ar gyfer ein Strategaeth Iaith Gymraeg. Adroddir am y cyfnod hwn yng nghyfarfod Pwyllgor Cydraddoldeb y Cabinet ym mis Tachwedd 2020.